



Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru

CAM DAU

Ymateb gan Barciau Cenedlaethol Cymru, Mai 2015



Mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth fel Parciau Cenedlaethol Cymru (PCC). Mae PCC yn hyrwyddo dibenion a buddiannau'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru, sef Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri.

Mae PCC yn gyfle i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol nodi materion sy'n gyffredin iddyn nhw a chytuno ar waith a chanlyniadau. Mae gwybodaeth a phrofiadau yn cael eu rhannu â chydweithwyr, gwneuthurwyr polisïau, cymunedau lleol o fewn y Parciau Cenedlaethol, a phobl sy'n ymweld â'r ardaloedd gwarchoddedig hyn.

Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig – Yr Ail Gam Ymateb gan Barciau Cenedlaethol Cymru

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol Tudalen 1

Cyflwyniad Tudalen 3

Cwestiwn 1 - Pa rai yw'r trefniadau llywodraethu mwyaf effeithiol ar gyfer y tirweddau dynodedig sy'n caniatáu iddynt roi arweiniad a sicrhau canlyniadau uchelgeisiol yng Nghymru a thros Gymru? Tudalen 5

- 1.1 Esblygu'r model awdurdod lleol
- 1.2 Dull aml-ddisgyblaeth o gyflawni blaenoriaethau Cymru
- 1.3 Yr offer cywir i wneud y gwaith
- 1.4 Esblygu arweinyddiaeth a gweledigaeth genedlaethol
- 1.5 Llywodraethu mewn modd cynrychiadol ac atebol
- 1.6 Dull mwy integredig o lunio adroddiadau

Cwestiwn 2 - Yng ngoleuni adroddiad Cam Un yr Adolygiad a'i argymhellion a datganiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol (ar 4 Mawrth), beth yw'ch gweledigaeth ac uchelgais o ran cyfeiriad tirweddau dynodedig Cymru yn y tymor canolig i hir? Tudalen 10

- 2.1 Cynnal a hybu ein hadnoddau naturiol a diwylliannol
- 2.2 Cryfhau ein cymunedau lleol
- 2.3 Diffinio ein lle yng Nghymru yn yr 21ain ganrif
- 2.4 Egluro ein perthnasoedd allweddol

Cwestiwn 3 - O safbwynt y trefniadau llywodraethu, pa ffactorau sy'n rhwystro a/neu'n debygol o rwystro tirweddau Dynodedig rhag gwireddu'r weledigaeth a'r uchelgais rydych wedi'u disgrifio yng nghwestiwn 2? Tudalen 12

- 3.1 Cyflwyniad
- 3.2 Dyletswydd i roi sylw i ddibenion y Parc Cenedlaethol
- 3.3 Diffyg arweinyddiaeth genedlaethol gyson ar gyfer Parciau Cenedlaethol
- 3.4 Lleihau'r baich rheoleiddio
- 3.5 Effaith y posibilrwydd o golli'r swyddogaeth gynllunio
- 3.6 Aelodaeth Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Cwestiwn 4 - O safbwynt y trefniadau llywodraethu, pa ffactorau fyddai'n galluogi'r tirweddau dynodedig i wireddu'r weledigaeth a'r uchelgais rydych wedi'u disgrifio yng nghwestiwn 2? Tudalen 15

- 4.1 Cyflwyniad
- 4.2 Dyletswydd gryfach i roi sylw i ddibenion y Parc Cenedlaethol
- 4.3 Arweinyddiaeth genedlaethol fwy gweladwy ac ar y cyd
- 4.4 Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel modelau o adrodd integredig
- 4.5 Swyddogaeth lawn i gynllunio'r defnydd o dir
- 4.6 Aelodaeth Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- 4.7 Ariannu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Cwestiwn 5 - A oes modelau/dulliau ar gyfer llywodraethu tirweddau dynodedig/ ardaloedd gwarchoddedig y carech dynnu sylw'r Adolygiad atynt? **Tudalen 21**

- 5.1 Cyflwyniad
- 5.2 Parciau Natur Rhanbarthol Ffrainc (Les Parcs Naturels Régionaux)
- 5.3 Parciau Cenedlaethol Denmarc
- 5.4 Parciau Cenedlaethol yr Alban
- 5.5 Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
- 5.6 Gwasanaeth Parciau Cenedlaethol yr Unol Daleithiau

Atodiad 1 - Cynllunio mewn Parciau Cenedlaethol

Tudalen 24

Crynodeb Gweithredol

CG 1 Mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol, sy'n gweithio gyda'i gilydd fel Parciau Cenedlaethol Cymru, yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i Gam 2 yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig. Rydym o'r farn bod hwn yn gyfle i adeiladu ar ein llwyddiant yn rheoli a gwarchod Parciau Cenedlaethol gwerthfawr Cymru dros y 60 mlynedd diwethaf.

CG 2 Mae'n anochel bod tensiynau rhwng amcanion cenedlaethol ac anghenion lleol ac atebolrwydd, a chydabyddir y rheini. Mae'r model presennol, sy'n ymgorffori buddiannau cenedlaethol a lleol, a reolir gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol annibynnol, wedi sicrhau cydbwysedd priodol rhwng rheoli'r tensiynau hyn a chyflawni canlyniadau sydd o fudd i Gymru gyfan.

CG 3 Mae'n ein galluogi i gynnal cysylltiadau cryf ag Awdurdodau Unedol a'n cymunedau lleol, a hefyd adlewyrchu'r diddordeb cenedlaethol mewn Parciau Cenedlaethol drwy aelodau penodedig, a'r cyllid a'r canlyniadau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

CG 4 Mae parhad Awdurdodau Parciau Cenedlaethol amlswyddogaethol ac amlddisgyblaethol yn hanfodol os yw'r Parciau Cenedlaethol i chwarae rhan lawn o ran cwrdd â heriau Cymru yn yr 21ain ganrif. Mae'r heriau hynny'n cynnwys lleddfu tloedi, llesiant cenedlaethau'r dyfodol, rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a symud at economi newydd ôl-garbon.

CG 5 Fel llawer o gyrrff bach sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon, rydyn ni'n fwy na'n gwerth, a gallai cael gwared â rhai swyddogaethau effeithio'n sylweddol, er yn anfwriadol, ar ein gallu i gyflawni eraill.

CG 6 Mae'n bwysig felly bod gennym yr offer angenrheidiol i gyflawni ein dibenion yn ogystal â'r cyfrifoldebau newydd a argymhellodd y Panel yng Ngham 1 yr Adolygiad, yn enwedig:

- Swyddogaethau llawn i gynllunio'r defnydd o dir ac i reoli tirwedd;
- Gwell pwerau datblygu economaidd;
- Cydnabyddiaeth fel canolfannau cyflawni rhanbarthol;
- Rôl arwain o ran Rheoli Cyrchfannau;
- Cyfrifoldeb am y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) yn yr ardaloedd lle'r ydym yn gweithredu;
- Cyfrifoldeb statudol am yr hawliau tramwy cyhoeddus.

CG 7 Mae ein gweledigaeth a'n huchelgais yn cwmpasu pedair thema eang:

- Cynnal a hybu ein hadnoddau naturiol a diwylliannol;
- Cryfhau ein cymunedau lleol;
- Diffinio ein lle yng Nghymru yn yr 21ain ganrif;
- Egluro ein perthnasoedd allweddol.

CG 8 Mae'r ffactorau canlynol, sy'n gysylltiedig â llywodraethu, yn ein hatal rhag cyflawni'r weledigaeth hon:

- Yr ymadrodd gwan 'rhoi sylw i' yn y ddyletswydd;
- Diffyg arweiniad cenedlaethol cyson ar gyfer Parciau Cenedlaethol;
- Gofynion adrodd ac archwilio anghymesur;

- Y posibilrwydd o golli, neu leihau, ein swyddogaeth cynllunio'r defnydd o dir.

CG 9 Rydym wedi gwneud nifer o awgrymiadau i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn, gan gynnwys:

- Sefydlu fforwm arweinyddiaeth genedlaethol i ddatblygu arweinyddiaeth a gweledigaeth sy'n gweithredu fwy ar y cyd, rhannu arferion gorau a sbarduno rhagor o gydweithio;
- Cryfhau'r ddyletswydd ar awdurdodau perthnasol;
- Dull partneriaeth mwy penodol o ddatblygu a chyflawni Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol;
- Arweinyddiaeth fwy gweladwy a chyson gan Gyrrff Noddir gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru;
- Gwneud Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn fodelau ar gyfer cyflwyno adroddiadau integredig.

CG 10 Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cael eu cydnabod yn enghreifftiau o lywodraethu da ym maes llywodraeth leol ac rydym yn ymdrechu i fod yn flaengar ac yn gynhwysol ym mhob agwedd ar ein gwaith ac i sicrhau bod ein strwythurau llywodraethu yn cynrychioli gwahanol sectorau a grwpiau.

CG 11 Rydym yn cytuno â gweledigaeth y Gweinidog y dylid cael mwy o amrywiaeth o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd yn y rhai a benodir. Dylai materion amrywiaeth fod â rhan lawn yn y broses benodi, fel eu bod yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r angen i Barciau Cenedlaethol benodi pobl brofiadol sydd â'r sgiliau iawn.

CG 12 Rydym wedi tynnu sylw at nifer o opsiynau posibl i sicrhau mwy o atebolrwydd a thryloywder o ran dewis a phenodi aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys:

- Cryfhau cynrychiolaeth gymunedol ee trwy benodi cyfran o aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o gynghorau tref a chymuned;
- Cynyddu tryloywder a chysondeb y broses benodi;
- Gosod canllawiau i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddewis ymgeiswyr ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys y cyfnod hwyaf y cânt fod yn aelodau;
- Cael gwared ar yr angen i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol neu ei gyfyngu i wardiau sydd naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol;
- Cynnal archwiliad blynyddol o sgiliau holl aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol;
- Ystyried cynllun peilot ar gyfer etholiadau uniongyrchol;
- Diweddarau canllawiau'r Gweinidog ar benodiadau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

CG 13 Mae'r Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yn gyfle i gryfhau atebolrwydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fwy fyth, a sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gyrrff cadarn a pherthnasol sy'n gweithredu'n effeithlon ac yn gydweithredol yn yr hinsawdd gyflawni newydd.

CG 14 Rhoddodd y ddeddfwriaeth â'n sefydlodd ddibenion a systemau i ni sydd wedi'n galluogi i gyflawni dros ddegawdau lawer, ac mae'r un mor bwysig nawr bod addasiadau a newidiadau yr un mor gadarn, ac yn caniatáu i brosesau deinamig ddigwydd.

Cyflwyniad

C 1 Mae Parciau Cenedlaethol Cymru wedi bod yn destun nifer o adolygiadau annibynnol ac adolygiadau gan y llywodraeth ers iddynt gael eu sefydlu yn y 1950au, gyda phob adolygiad yn asesu'r trefniadau cyfredol ac yn argymhell gwelliannau i'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi a'r systemau rheoli sy'n sail i'r Parciau.

C 2 Pan gafodd y Parciau Cenedlaethol eu sefydlu roedden nhw'n cael eu rheoli naill ai drwy fyrdau lleol ar y cyd neu bwyllgorau lleol y Cynghorau Sir.

C 3 Yn y 1990au cynnar, aeth panel annibynnol o dan gadeiryddiaeth yr Athro Ron Edwards o Brifysgol Caerdydd ati i adolygu gweithrediad y Parciau yn ystod y deugain mlynedd diwethaf ac amlinellodd weledigaeth ar gyfer eu dyfodol, a gyflwynwyd mewn adroddiad a elwir yn adroddiad Edwards¹. Un o brif argymhellion yr adolygiad oedd creu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol annibynnol a allai sefyll ar eu traed eu hunain gan nad oedd llywodraeth leol yn cyflawni dibenion y Parciau Cenedlaethol yn effeithiol.

C 4 Derbyniodd y Llywodraeth yr egwyddor a'r rhesymeg dros greu awdurdodau annibynnol a allai sefyll ar eu traed eu hunain. Cytunwyd na allai Cyngor Sir, a oedd â chylch gwaith ehangach, roi'r un sylw ac adnoddau i Barc Cenedlaethol gystal ag y gallai Awdurdod Parciau Cenedlaethol. Wedi hynny, gwnaed darpariaeth yn Neddf yr Amgylchedd 1995 i sefydlu awdurdodau annibynnol a allai sefyll ar eu traed eu hunain.

C 5 Cafodd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru eu sefydlu yn 1996. I ddechrau, rhoddodd y Swyddfa Gymreig ganllawiau strategol iddynt yng Nghylchlythyr 13/99 ar weithredu eu swyddogaethau craidd yn ymarferol. Yn 2004, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau adolygiad annibynnol o'r Parciau Cenedlaethol ac yn 2007, cyhoeddodd ddatganiad polisi ar Barciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol². Yn ddiweddar, mae wedi ymgynghori ar ddatganiad polisi newydd³.

C 6 Yn 2013, cynhaliodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus⁴ archwiliad o'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu llywodraethu a'u darparu yng Nghymru, ac ystyriodd sut y gellid eu gwella. Ar ôl ymchwilio'n eang a chasglu tystiolaeth, cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad ym mis Ionawr 2014.

C 7 Cydnabu'r Comisiwn y rhesymeg dros gael Awdurdodau Parciau Cenedlaethol annibynnol, a phwysigrwydd hynny, a daeth i'r casgliad y byddai ffocws unigryw Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar warchod a hyrwyddo mynediad cynaliadwy i Barciau Cenedlaethol mewn perygl pe bai eu swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol (paragraff 2.60). Yn lle hynny, argymhellodd y Comisiwn bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn adeiladu ar eu hymdrechion cydweithredol presennol ac yn datblygu ffyrdd clir a chyson o gydweithio â'i gilydd, ac ag awdurdodau lleol a chyrff eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn osgoi dyblygu, ac er mwyn rhannu arbenigedd a gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin.

¹ Adroddiad y Panel Adolygu Parciau Cenedlaethol, y Comisiwn Cefn Gwlad (1991)

² Datganiad Polisi ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru (Mawrth 2007)

³ [Ymgynghoriad ar y Datganiad Polisi drafft ar gyfer Tirweddau Gwarchoddedig yng Nghymru](#), Llywodraeth Cymru (Mehfein 2013)

⁴ [Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus](#), Adroddiad Llawn (Ionawr 2014)

C 8 Mae'r Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yn gyfle i gryfhau atebolrwydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fwy fyth, a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyrff cadarn a pherthnasol sy'n gweithredu'n effeithlon ac yn gydweithredol yn yr hinsawdd gyflawni newydd.

Cwestiwn 1

Pa rai yw'r trefniadau llywodraethu mwyaf effeithiol ar gyfer y tirweddau dynodedig sy'n caniatáu iddynt roi arweiniad a sicrhau canlyniadau uchelgeisiol yng Nghymru a thros Gymru?

1.1 Esblygu'r model awdurdod lleol

1.11 Mae prosesau llywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn unigryw gan ein bod yn atebol drwy gyfrwng y Mesur Llywodraeth Leol⁵ a gofynion Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Mae'r model o reoli Parciau Cenedlaethol yn y DU yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel un sy'n parchu buddiannau cymunedau lleol ac yn eu cynnwys ym maes cadwraeth⁶. Er bod y dull o lywodraethu Parciau Cenedlaethol ychydig yn wahanol ar draws y DU mae bob amser yn cynnwys buddiannau cenedlaethol yn ogystal â lleol.

1.12 Mae llywodraethau olynol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi bod yn ymwneud â materion llywodraethu am flynyddoedd lawer. Nid oes ateb hawdd i reoli'r tensiynau sy'n codi'n anochel rhwng bodloni amcanion cenedlaethol ac anghenion lleol ac atebolrwydd. Mae'r model presennol o gynnwys buddiannau cenedlaethol a lleol, a reolir gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol annibynnol, wedi sicrhau cydbwysedd priodol rhwng rheoli'r tensiynau hyn a sicrhau canlyniadau sydd o fudd i Gymru gyfan.

1.13 Felly, teimlwn, ar y cyfan, bod y model presennol o lywodraethu Parciau Cenedlaethol yn gadarn ac y dylid ei gadw. Mae'n ein galluogi i gynnal cysylltiadau cryf ag Awdurdodau Unedol a'n cymunedau lleol, a hefyd adlewyrchu'r diddordeb cenedlaethol mewn Parciau Cenedlaethol drwy aelodau penodedig, a'r cyllid a'r canlyniadau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Rydym o'r farn fod lle i ragor o gydweithio ar ddarparu ein gwasanaethau a'n swyddogaethau ac y gellid llunio adroddiadau ar y cyd, ond bod yna achos cryf dros barhau â'r trefniadau llywodraethu ar wahân ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

1.14 Fodd bynnag, rydym yn teimlo y gellid gwneud nifer o welliannau i'n trefniadau llywodraethu, a chyflwynwn y rheini yn ein hymateb i Gwestiwn 4.

1.2 Dull aml-ddisgyblaeth o gyflawni blaenoriaethau Cymru

1.21 Mae'r Adolygiad yn gyfle i fireinio'r model cyflawni ar gyfer Tirweddau Dynodedig yng Nghymru mewn cyd-destun a ddiffinnir gan lawer o ffactorau rhyng-gysylltiedig, gan gynnwys y dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth, mwy o dlodi ac anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd, sy'n gwneud pobl a bioamrywiaeth yn fwy agored i niwed.

1.22 Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn fodolau ar gyfer cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn modd integredig, yn ogystal â datblygu economi werdd a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gall ffocws cymdeithasol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sicrhau cymunedau cynaliadwy, tra bod gweithredu ar sail Parc cyfan yn golygu mai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yw'r asiantau cyflenwi allweddol ar gyfer symud tuag at economi newydd ôl-garbon.

⁵ [Mesur Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2011](#)

⁶ Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn cael eu dosbarthu gan yr IUCN fel Tirweddau Gwarchoddedig Categori V, statws a ddiffinnir gan ryngweithio cytbwys rhwng pobl a natur. Adolygwyd hyn yn ddiweddar a'i ail-neilltuo.

1.23 Mae parhad Awdurdodau Parciau Cenedlaethol amlswyddogaethol ac amlddisgyblaethol yn hanfodol os yw'r Parciau Cenedlaethol i chwarae rhan lawn o ran cwrdd â heriau Cymru yn yr 21ain ganrif. Mae ein gallu i gynllunio, rheoli a dylanwadu'n briodol ar ddatblygiad a chadwraeth y Parc Cenedlaethol yn hanfodol. Mae Cynlluniau Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gyfrwng i gyflawni'r canlyniadau hyn, ond, fel y dadleuwn yn ein hymateb i Gam 1, dylai'r Cynlluniau ehangu i ddod yn gynlluniau llesiant ac adnoddau naturiol lleol *de facto* ar gyfer y Parc Cenedlaethol.

1.24 Yn gysylltiedig â hyn, mae ein swyddogaeth cynllunio'r defnydd o dir yn ein galluogi i gysylltu a chyflawni llawer o wahanol rannau o'n gwaith ac yn elfen hollbwysig o'n gwaith llywodraethu. Credwn fod cadw'r swyddogaeth hon yn llawn yn hanfodol i gyflawni ein dibenion, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r canlyniadau a argymhellir yn sgil Cam 1.

1.25 Fel llawer o gyrff bach sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon, rydyn ni'n fwy na'n gwerth, a gallai cael gwared â rhai swyddogaethau effeithio'n sylweddol, er yn anfwriadol, ar ein gallu i gyflawni eraill.

1.3 Yr offer cywir i wneud y gwaith

1.31 Credwn fod yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yn gyfle amserol i sicrhau bod yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn meddu ar yr offer, yr adnoddau a'r pwerau priodol i'n galluogi i gyflawni ein dibenion, y ddyletswydd gysylltiedig, a blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.

1.32 Mae nifer o drefniadau sefydliadol hanesyddol wedi cael effaith sylweddol ar ein gallu i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol a'r ddyletswydd gysylltiedig (gweler Adrannau A11 a C5 o'n hymateb i Gam 1 am ragor o fanylion), ac a fyddai'n effeithio ar ein gallu i gyflawni'r amrywiaeth ehangach o gyfrifoldebau a gynigir gan y Panel yn ei Adroddiad Cam 1. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Natur ddigyswllt y gwahanol gyfundrefnau rheoleiddio** ee mae rheoli datblygu, rheoliadau adeiladu ac iechyd yr amgylchedd yn cael eu rheoli gan wahanol gyrff o fewn y Parciau Cenedlaethol. Pe byddai'r gwasanaethau hyn yn cydweithredu'n well, byddai hynny'n gwneud y gwasanaethau'n fwy cyfeillgar i gymunedau a busnesau sydd am wneud gwaith sy'n dod o fewn y gwahanol gyfundrefnau;
- **Diffyg cysylltiad rhwng cynlluniau cenedlaethol amaeth-amgylcheddol a dibenion y Parciau Cenedlaethol** ee bydd olynnydd Glastir o fudd i'r economi a'r amgylchedd wledig mewn nifer o ffyrdd, gan roi cyfle i wella rhannau helaeth o'r ucheldiroedd, yn ogystal â thir ffermio cynhyrchiol mewn ardaloedd sensitif. Mae'n hanfodol fod y gwaith o ddatblygu'r cynllun olynol a'r modd y targedir cronfeydd y Cynllun Datblygu Gwledig yn y dyfodol yn cael eu gwneud gyda dibenion y Parc Cenedlaethol ac amcanion Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol mewn golwg. Byddai hynny o fwy o fudd i dirweddau'r Parc Cenedlaethol;
- **Y nifer fawr o gyrff cyhoeddus sy'n gweithredu o fewn y Parciau Cenedlaethol ar reoli adnoddau naturiol.** Credwn fod lle i fathau newydd o weithio mewn partneriaeth a'r posibilrwydd o drosglwyddo'r cyfrifoldeb o reoli adnoddau naturiol ee gallai rheoli a

hybu Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal⁷ drwy bartneriaeth rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gynnig gwersi gwerthfawr ar gyfer ardaloedd eraill.

1.33 Yn ogystal, credwn y byddai cadw neu ehangu ein pwerau yn y meysydd canlynol yn ein galluogi i barhau'n gyrrff cyflawni effeithiol:

- **Swyddogaeth lawn o ran cynllunio'r defnydd o dir** – mae bod â swyddogaeth lawn o ran cynllunio'r defnydd o dir yn ein galluogi i gyflawni ein cyfrifoldebau presennol gan gynnwys cyfrifoldebau hybu twristiaeth ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Hebdi, byddem yn cael trafferth i gyflawni'r cyfrifoldebau newydd a argymhellwyd gan y Panel yn ei Adroddiad Cam 1, yn enwedig o ran datblygiad economaidd a chymdeithasol ein cymunedau lleol;
- **Swyddogaeth lawn o ran rheoli tirwedd** – mae dwysedd a maint safleoedd a warchodir a'r poblogaethau o rywogaethau a warchodir yn tueddu i fod yn uwch mewn Parciau Cenedlaethol. Mae cyfran uchel o'r carbon yn y pridd yng Nghymru o fewn eu ffiniau ac mae'r rhan helaeth o ddŵr yfed Cymru yn tarddu o'r Parciau. Felly, mae swyddogaeth Parciau Cenedlaethol o ran diogelu bioamrywiaeth, carbon a dŵr o bwys cenedlaethol i economi a lles Cymru. Gyda'r offer angenrheidiol, gall Awdurdodau Parciau Cenedlaethol hwyluso partneriaeth ar gyfer pob tirwedd ddynodedig, a fyddai'n debyg o ran ei chwmpas i'r bartneriaeth cyrchfannau;
- **Pwerau datblygu economaidd gwell** - fel y cydnabu'r Panel yn ei Adroddiad Cam 1, mae angen i Barciau Cenedlaethol fod yn lleoedd economaidd a chymunedol bywiog. Rydym mewn sefyllfa dda i roi cefnogaeth ymarferol i ddatblygiad economaidd a'i hybu yn lleol, drwy ein Cronfeydd Datblygu Cynaliadwy, Cynghreiriau Gwledig a Collabora⁸, a dylem fod yn gyfrifol am y Cynllun Datblygu Gwledig yn yr ardaloedd sydd dan ein gofal. Trwy ymgorffori'r cyfrifoldeb am ddatblygu economaidd a datblygu cymunedol cynaliadwy yn ein dibenion statudol gallem chwarae mwy o ran wrth gyflawni hyn. Fel yr eglurwyd yn ein hymateb Cam 1, dylai hyn gael ei wneud ar y cyd â mecanwaith estynedig i ddatrys gwrthdaro, a fyddai'n ein galluogi i gadw ein statws rhyngwladol fel Tirweddau Gwarchoddedig IUCN Categori V;
- **Cydnabod Parciau Cenedlaethol yn ganolfannau cyflenwi rhanbarthol** – credwn fod gennym rôl bwysig i'w chwarae o ran rheoli tir ac adnoddau naturiol y tu hwnt i'n ffiniau swyddogol, er enghraifft ar lefel Dinas Ranbarth. Credwn hefyd ein bod mewn sefyllfa dda i weithredu fel canolfannau ar gyfer cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol, gan gynnwys mewn ardaloedd sydd heb gynllun rheoli cydnabyddedig na ffocws cyflenwi. Mae'r rôl hon fel canolfannau yn un unigol ac yn un ar y cyd;
- **Cyflawni ein potensial o ran arwain ar Reoli Cyrchfannau.** Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eisoes yn chwarae rhan gref o ran arwain Partneriaethau Rheoli Cyrchfannau⁸ a'u datblygu. Mae profiad Bannau Brycheiniog (sy'n gyrchfan yn ei rhinwedd ei hun, yn wahanol i Eryri ac Arfordir Penfro) yn dangos yn glir y gallai'r rôl arwain gael ei datblygu ymhellach yn y dyfodol mewn mannau eraill, gan ddarparu gwell cyfleoedd i ymwelwyr,

⁷ <http://www.ccw.gov.uk/landscape--wildlife/protecting-our-landscape/special-landscapes--sites/protected-landscape/national-nature-reserves/cwm-idwal.aspx?lang=cy>

⁸ <http://business.wales.gov.uk/dmwales/destination-management>

defnyddwyr a busnesau. Gellid ystyried bod llawer o'r hyn y mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn ei gynnig yn gyfraniadau at yr economi leol trwy dwristiaeth – cynnal a gwella'r seilwaith mynediad a hamdden, darparu gwybodaeth, dehongli safleoedd, rheoli traffig, rheoli datblygu ac ati. Pe byddai Croeso Cymru yn cydnabod y rôl arweiniol hon sydd gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol byddai hynny'n ddefnyddiol er mwyn galluogi Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i ddatblygu eu huchelgeisiau arweinyddiaeth ac i reoli a datblygu cyrchfannau yn gydlynus a chynaliadwy;

- **Rôl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel awdurdodau mynediad** – byddai mantais sylweddol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael cyfrifoldeb statudol am y rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus o fewn eu ffiniau, yn hytrach na dibynnu ar y trefniadau dirprwyo presennol. Byddai hynny'n ddull mwy integredig a chosteffeithiol o ddarparu a hyrwyddo cyfleoedd hamdden a mynediad. Byddai 'siop un stop' ar gyfer mynediad i'r tri Parc Cenedlaethol hefyd yn symlach i'r cyhoedd a byddai'n ffurfioli'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad, ond byddai angen cael digon o adnoddau i ymgymryd â'r rôl hon;
- **Cysylltiadau cryfach â phrosesau llywodraethu ardaloedd morol ac arfordirol** – byddai rheoli tirweddau a'u hardaloedd morol ac arfordirol yn integredig yn gydnaws â'r dull cydgysylltiedig o reoli adnoddau naturiol y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i hyrwyddo'n ehangach. Gallai Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol fod yn gyfrwng i gydlynu'r gweithgareddau a'r datblygiadau presennol yn gryfach, a threialu dulliau newydd o gynllunio a rheoli'r amgylchedd arfordirol a morol.

1.4 Esblygu arweinyddiaeth a gweledigaeth genedlaethol

1.41 Fel y cydnabu'r Panel yn ei Adroddiad Cam 1, mae angen dod o hyd i fecanweithiau sy'n galluogi a meithrin arweinyddiaeth fwy effeithiol ar ran y tirweddau dynodedig, gan gynnwys dulliau o briodi materion arweinyddiaeth cenedlaethol â'r rhai lleol.

1.42 Credwn y byddai sefydlu fforwm arweinyddiaeth genedlaethol yn ychwanegiad defnyddiol at ein dulliau llywodraethu, ac y byddai'n esblygiad o drefniadau sydd eisoes wedi dechrau cael eu rhoi ar waith mewn ymateb i'r Adolygiad. Byddai hefyd yn ffordd ymarferol o ddatblygu mwy o arweinyddiaeth a gweledigaeth ar y cyd, rhannu arferion gorau a sbarduno mwy o gydweithredu rhwng y cyrff rheoli. Mae rhagor o fanylion am y fforwm hwn yn ein hymateb i gwestiynau 3 a 4.

1.5 Llywodraethu mewn modd cynrychiadol ac atebol

1.51 Rydym yn ymdrechu i fod yn flaengar ac yn gynhwysol ym mhob agwedd ar ein llywodraethu ac i sicrhau bod ein strwythurau llywodraethu yn cynrychioli gwahanol sectorau a grwpiau. Rydym yn defnyddio nifer o ddulliau gwahanol i gyflawni hyn.

1.52 Mae partneriaethau mentora yn ffordd bwysig o ledaenu gwybodaeth am Dirweddau Dynodedig ac i recriwtio cefnogwyr a hyrwyddwyr newydd. Mae pob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi cytuno i gymryd rhan mewn cynlluniau mentora i wella dealltwriaeth aelodau'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol am gynulleidfaoedd amrywiol, gan gynnwys cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, rhywedd a grwpiau oedran sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Hefyd, bydd y partneriaethau hyn yn ehangu dealltwriaeth o'r Parciau Cenedlaethol ac yn annog rhagor o gymunedau amrywiol i gymryd rhan ym mhrosesau llywodraethu'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ee mae Awdurdod Parc Cenedlaethol

Bannau Brycheiniog⁹ yn gweithio ar gynllun mentora gyda Mosaic Cymru, unigolion o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig lleol, ac aelod o'r gymuned Nepalaidd yn Aberhonddu.

1.53 Rydym yn cymryd gofal i sicrhau bod ein paneli a'n grwpiau cynghori yn cynrychioli cymunedau o ddiddordeb ee yn Eryri, mae ceisiadau i Gronfa Arbrofol Eryri (Cronfa Datblygu Cynaliadwy) yn cael eu hadolygu gan banel arbennig o gynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol (pob un gydag un rhan o dair o'r aelodaeth). Mae'r Panel yn chwarae rhan bwysig o ran llywodraethu'r gronfa £200,000 y flwyddyn hon gan ei fod yn asesu pob cais am grant sy'n werth dros £1,000.

1.54 Rydym hefyd yn defnyddio prosiectau a rhaglenni allgymorth wedi'u targedu i gynyddu amrywiaeth ee yn Arfordir Penfro mae prosiect Eich Parc¹⁰ wedi llwyddo i dargedu amrywiaeth eang o grwpiau dan anfantais ac wedi rhoi cyfle iddyn nhw gyfarfod â staff ac aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac i ymwneud â nhw. Mae'r prosiect hefyd wedi datblygu cynllun parcmynd ifanc¹¹, sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc 16-25 oed o wahanol gefndiroedd gymryd rhan mewn prosiectau ar draws y Parc Cenedlaethol ac, mewn partneriaeth â'r cynulliad pobl ifanc, mae'n rhoi llais i bobl ifanc yng nghyfarfodydd, trafodaethau ac ymgynghoriadau Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

1.6 Dull mwy integredig o lunio adroddiadau

1.61 Dylai'r gofynion rheoleiddio a chyflwyno adroddiadau ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fod yn gymesur â'n maint a'n cyllideb, sy'n gymharol fach. Dylent ganiatáu i ni neilltuo mwy o'n hadnoddau i gyflawni'r dibenion a'r ddyletswydd gysylltiedig. Ceir rhagor o fanylion yn adran 3.4.

⁹ <https://governance.beacons-mpa.gov.uk/mgConvert2PDF.aspx?ID=8985>

¹⁰ <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=596>

¹¹ <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/?PID=618>

Cwestiwn 2

Yng ngoleuni adroddiad Cam Un yr Adolygiad a'i argymhellion a datganiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol (ar 4 Mawrth), beth yw'ch gweledigaeth ac uchelgais o ran cyfeiriad tirweddau dynodedig Cymru yn y tymor canolig i hir?

Mae ein gweledigaeth a'n huchelgais yn cwmpasu pedair thema eang:

2.1 Cynnal a hybu ein hadnoddau naturiol a diwylliannol

- Mae ein tirweddau naturiol yn cael eu cynnal ac maen nhw'n iach, gydag amgylchedd naturiol bioamrywiol o safon uchel ynghyd ag aer, dŵr, tir a môr glân;
- Mae ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n weithredol ac yn ffynhonnell gynyddol o gyflogaeth ar gyfer ein cymunedau lleol. Mae ein rôl fel gwarcheidwaid rhai o adnoddau a thirweddau naturiol mwyaf gwerthfawr Cymru yn cael ei gydnabod yn llawn;
- Mae ein hamgylchedd hanesyddol ac adeiledig yn cael ei ddiogelu, ei hyrwyddo a'i fwynhau;
- Mae am yw bobl o bob rhan o Gymru, y DU a thramor yn ymweld â'r Parciau Cenedlaethol ac yn eu gwerthfawrogi, ac mae cynnydd a reolir yn y defnydd lleol o'n Parciau Cenedlaethol a dosbarthiad daearyddol mwy cyfartal o ymwelwyr;
- Mae gan y cyhoedd ddealltwriaeth eang o'r Parciau Cenedlaethol a'u budd, ar draws cynulleidfaoedd amrywiol, ac mae mwy o bobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu ein Parciau a'n tirweddau.

2.2 Cryfhau ein cymunedau lleol

- Mae cymunedau'r Parciau Cenedlaethol yn fywiog, yn wydn ac yn gynaliadwy ac yn lleoedd lle mae arloesedd, cynhwysiant cymdeithasol a chydweithio yn cael eu hyrwyddo;
- Mae anghenion ein cymunedau lleol yn cael eu bodloni, gan ganolbwyntio ar dai fforddiadwy a datblygu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol;
- Mae busnesau lleol yn ffynnu, yn enwedig y rhai sy'n seilio eu gweithgarwch ar dirweddau ac adnoddau naturiol y Parciau;
- Mae pobl leol yn cymryd rhan weithredol yn y Parciau Cenedlaethol, gyda mwy o ymdeimlad o berchnogaeth leol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, a mwy o gyfranogiad gan wirfoddolwyr;
- Mae Parciau Cenedlaethol yn lleoedd lle mae pwysigrwydd y Gymraeg a'i diwylliant yn cael ei gydnabod a'i ddathlu.

2.3 Diffinio ein lle yng Nghymru yn yr 21ain ganrif

- Mae'r Parciau Cenedlaethol a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu ar flaen y gad o ran polisiau a blaengynllunio yng Nghymru, ac yn fecanweithiau cyflawni hanfodol ar gyfer blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y blaenoriaethau newid hinsawdd, llesiant cenedlaethau'r dyfodol, rheoli adnoddau naturiol, twf gwyrdd, gwella iechyd a lleihau tlodi;

- Mae'r Parciau Cenedlaethol yn gweithredu fel canolfannau ar gyfer cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mewn ardaloedd heb gynllun rheoli cydnabyddedig na ffocws ar gyflenwi;
- Mae'r Parciau Cenedlaethol yn cael eu gwerthfawrogi gan genedlaethau'r dyfodol, ac yn parhau i fod yn berthnasol iddynt, ac yn cael eu parchu fel asedau cenedlaethol gwerthfawr;
- Mae'r gwaith partneriaeth o fewn ffiniau'r Parciau Cenedlaethol, a thu hwnt i'r ffiniau hynny, yn aeddfed, yn bwrpasol ac yn wirioneddol gydweithredol, gyda rhyddid i arbrofi gyda chysyniadau a chyfle i arloesi a mynd ar drywydd syniadau beiddgar;
- Mae'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn arwain y ffordd o ran arloesi, ac maent yn enghraifft ragorol o ddatblygu cynaliadwy ac yn ganolfannau ar gyfer dysgu ac arloesi amgylcheddol, sy'n treialu atebion newydd i heriau amgylcheddol a chymdeithasol.

2.4 Egluro ein perthnasoedd allweddol

- Mae Tirweddau Dynodedig Cymru yn gweithio'n agosach â'i gilydd, ond gan gadw dibenion a modelau llywodraethu ar wahân;
- Rydym yn parhau i fod yn rhan o deulu Parciau Cenedlaethol y DU, gan rannu profiadau a gwybodaeth gyda'n cydweithwyr, ac elwa ar gydweithio ar brosiectau hyfforddi ar y cyd, gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a digwyddiadau arbennig;
- Ceir arweinyddiaeth genedlaethol weladwy ar gyfer Tirweddau Dynodedig, a ddarperir yn rhannol trwy'r fforwm arweinyddiaeth genedlaethol a ddisgrifir yn Adran 1.4, ond hefyd gan weledigaeth ac uchelgais glir gan gyrff cenedlaethol eraill;
- Mae ein statws rhyngwladol fel Tirweddau Gwarchodedig IUCN Categori V yn cael ei gadw, ac rydym yn parhau i elwa o fod yn aelodau o Ffederasiwn EUROPARC;
- Mae gennym sicrwydd deiliadaeth, a blaenoriaethau a nodau clir, sylfaen ariannol gadarn a gofynion priodol o ran adroddiadau, fel y gallwn sicrhau bod ein hadnoddau a'n hegni yn canolbwyntio ar gyflawni ein dibenion.

Cwestiwn 3

O safbwynt y trefniadau llywodraethu, pa ffactorau sy'n rhwystro a/neu'n debygol o rwystro tirweddau dynodedig rhag gwireddu'r weledigaeth a'r uchelgais rydych wedi'u disgrifio yng nghwestiwn 2?

3.1 Mae yna nifer o ffactorau sy'n gysylltiedig â llywodraethu sy'n ein hatal rhag cyflawni'r weledigaeth a'r uchelgais yr ydym wedi'i nodi yn ein hymateb i Gwestiwn 2. Mae rhai o'r rhain yn ymwneud â'n prosesau llywodraethu mewnol, tra bod eraill yn ymwneud â phrosesau llywodraethu cyrff eraill ond sydd, serch hynny, yn berthnasol ar gyfer cyflawni'n gweledigaeth a'n huchelgais.

3.2 Dyletswydd i roi sylw i ddibenion y Parc Cenedlaethol

3.21 Rydym yn croesawu awgrym y Panel yn ei adroddiad Cam 1, y dylid cael gwared â'r ymadrodd 'rhoi sylw i' yng ngeiriad y ddyletswydd y cyfeirir yn gyffredin ati fel y ddyletswydd Adran 62, ac y dylid cyflwyno dyletswydd gryfach ar gyrff cyhoeddus a chyrff sy'n bartneriaid. Fel y nodwyd yn Adran A10 o'n hymateb i ymgynghoriad Cam 1, caiff y ddyletswydd ei hystyried gan lawer fel un aneffeithiol ac yn un sy'n golygu nad oes gennym rym i orfodi sefydliadau i roi ystyriaeth lawnach i ddibenion y Parciau Cenedlaethol. Yn lle hynny, byddem yn hoffi gweld rhwymedigaeth lawer mwy deniadol a chadarnhaol yn cael ei gosod ar awdurdodau perthnasol (gweler Adran 4.2 am ragor o fanylion).

3.3 Diffyg arweinyddiaeth genedlaethol gyson ar gyfer Parciau Cenedlaethol

3.31 Amlygodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ddiffyg arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer Parciau Cenedlaethol. Credwn fod hyn yn effeithio ar ein gallu i gyflawni, oherwydd, gan na fu arweinyddiaeth a gweledigaeth genedlaethol gyson, rydym wedi bod mewn proses o adolygiad parhaus o'n statws, ein cyfrifoldebau a'n swyddogaethau. Hefyd, i bob golwg, bu diffyg cefnogaeth gan gyrff cenedlaethol, ynghyd â chyfnod hir o ansicrwydd.

3.32 Soniodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus am y posibilrwydd o greu un Awdurdod Parc Cenedlaethol fel ffordd o sicrhau arweinyddiaeth a chlydlyniant cenedlaethol. Wedi trafod hyn, rydym o'r farn na fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r bwlch o ran arweinyddiaeth genedlaethol. Yn lle hynny, byddai'n ei gwneud yn fwy anodd sicrhau cyfranogiad lleol a byddai'n tanseilio atebolrwydd a'r gallu i wneud penderfyniadau'n lleol. Mae'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau yn rhai lleol, a gallent fod mewn perygl pe byddem yn mynd ymhellach oddi wrth ein cymunedau lleol a'n defnyddwyr gwasanaethau.

3.33 Hefyd, mae'n anochel y byddai greu un Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gwneud y gwaith o gydgyssylltu a rheoli gweithgareddau yn aneffeithlon ar draws tair tirwedd ddaearyddol tra gwahanol, sydd gryn bellter oddi wrth ei gilydd.

3.34 Yn ein hymateb i Gam 1 yr ymgynghoriad, rydym yn dadlau y dylai arweiniad cenedlaethol cryfach gael ei ddarparu gan adran Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys drwy arweinyddiaeth ar lefel Bwrdd a thrwy berchnogi gweledigaeth a datganiad o bolisi cyffredinol ar gyfer tirweddau gwarchoddedig. Ers cyflwyno'r ymateb hwnnw a thrafod ymhellach gyda'r partïon perthnasol, rydym yn awr o blaid sefydlu fforwm arweinyddiaeth genedlaethol, y byddai gan Gyfoeth Naturiol Cymru ran ynddi, ond a gâi ei harwain ar sail gydweithredol gan Dirweddau

Dynodedig Cymru. Er ein bod yn gryf yn lleol, derbyniwn nad ydym yn gwneud digon i ddylanwadu ar yr agenda genedlaethol. **Yn draddodiadol, rydym wedi gadael i eraill ddarparu arweiniad cenedlaethol, ond teimlwn yn awr ei bod yn bryd i ni, fel Tirweddau Dynodedig, ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn.**

3.35 Byddai'r fforwm arweinyddiaeth yn gyfrwng i Barciau Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Genedlaethol AHNE adeiladu ar y cydweithio presennol a'i ddatblygu ymhellach. Byddai'n gyfrifol am wneud Tirweddau Dynodedig yn fwy amlwg yn genedlaethol, a hyrwyddo dull o gydweithio sy'n fwy cydlynus. Ni fyddai perthynas uniongyrchol rhwng y fforwm, Llywodraeth Cymru a'r Tirweddau Dynodedig o ran atebolrwydd na chyllid uniongyrchol (gweler Adran 4.3 am ragor o fanylion).

3.4 Lleihau'r baich rheoleiddio

3.41 Fel cyrff llywodraeth leol mae'n ofynnol i ni fodloni'r un gofynion adrodd ac archwilio ag awdurdodau lleol llawer mwy, er bod hyn yn cael effaith andwyol ar ein gallu i gyflawni ein dibenion ac er ei fod yn anghymesur o ran ein maint. Mae ffioedd archwilio yn cynrychioli tua 1% o incwm y sector cyhoeddus ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, tra bod hynny ar gyfer Awdurdodau Lleol o faint canolig tua 0.10%.

3.42 Mae achos cryf dros symleiddio ein prosesau llunio adroddiadau ac archwilio, ac ar gyfer caniatáu i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddod yn fodolau ar gyfer cyflwyno adroddiadau integredig (gweler Adran 4.4 am ragor o fanylion).

3.5 Effaith y posibilrwydd o golli'r swyddogaeth gynllunio

3.51 Fel yr amlygwyd gennym yn ein hymateb i Gwestiwn 1, mae ein swyddogaeth cynllunio'r defnydd o dir yn hollbwysig wrth gyflawni ein cyfrifoldebau presennol yn ogystal â'r rhai a gynigir yn Adroddiad Cam 1 y Panel. Mae hefyd yn rhan hanfodol o'n trefniadau llywodraethu gan ei fod yn ein cysylltu â'n cymunedau lleol. Rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed gennym yn dod yn un o'r tri awdurdod cynllunio sy'n perfformio orau yng Nghymru. Byddai unrhyw golled neu ostyngiad yn y swyddogaeth hon heb os yn effeithio ar ein gallu i wireddu ein gweledigaeth a'n huchelgais. Byddai colli'r swyddogaeth gynllunio hefyd yn cynyddu'r baich ariannol ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gan y byddai angen iddynt gadw sgiliau cynllunio i ymateb i ymgynghoriadau gan awdurdodau cynllunio lleol perthnasol.

3.61 Aelodaeth Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

3.61 Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cael eu cydnabod fel enghreifftiau o lywodraethu da ym maes llywodraeth leol. Mae pob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi cyflawni'r siarter ar gyfer datblygu aelodau ac mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn un o ddau awdurdod yng Nghymru i gyflawni'r siarter uwch ar gyfer datblygu aelodau¹². Er ein bod, yn gyffredinol, yn fodlon ar fodol awdurdod lleol o lywodraethu, gyda mewnbwn ac arbenigedd penodol i adlewyrchu'r buddiant cenedlaethol mewn Parciau Cenedlaethol, mae rhai agweddau ar ein dull llywodraethu y gellid eu gwella yn ein barn ni, yn enwedig o ran y prosesau ar gyfer penodi aelodau o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae'r rheini'n cynnwys:

¹² <http://www.wlga.gov.uk/member-development-charter>

- **Trosiant** – does dim modd rhagweld pryd fydd aelodau awdurdodau lleol yn newid oherwydd mae hynny'n dibynnu ar nifer o ffactorau sydd yn aml yn amherthnasol i weithgarwch Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, fel etholiadau lleol, newidiadau o ran portffolio ac ymrwymadau cynghorwyr lleol. Gellid mynd i'r afael â hyn drwy gyflwyno cyfnod penodol ar gyfer pob penodiad, a byddai hyn hefyd yn ffordd o osgoi'r costau sylweddol o hyfforddi aelodau newydd;
- **Cydraddoldeb y broses o benodi aelodau** – ar hyn o bryd, nid yw pob aelod yn cael eu penodi drwy'r un broses. Mae Aelodau a benodwyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru yn wynebu cystadleuaeth agored drylwyr a chyfweliad sy'n seiliedig ar gymhwysedd. Mae Aelodau awdurdodau lleol yn cael eu penodi gan arweinydd y grŵp i adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol yr Awdurdodau Unedol;
- **Sgiliau Aelodau** - er bod pob aelod o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn mynd ar raglenni hyfforddi a datblygu trylwyr, gall y prosesau penodi gwahanol ei gwneud yn anodd cael trosolwg o sgiliau a phrofiad cyfun yr Aelodau, recriwtio aelodau i lenwi bylchau sgiliau penodol a meithrin dulliau o wneud penderfyniadau effeithiol;
- **Canllawiau ynghylch cydbwysedd gwleidyddol** – gall y canllawiau presennol ynghylch cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer aelodau a benodir gan awdurdodau lleol olygu bod penodiadau'n cael eu gwneud ar draul cynrychiolaeth leol. Weithiau, nid oes gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol unrhyw gysylltiad daearyddol gyda'r Parc Cenedlaethol na'i gymunedau. Mae cydbwysedd gwleidyddol yn gymwys i'r awdurdod lleol cyfan nid dim ond y Parc Cenedlaethol yn unig;
- **Amrywiaeth yn y gynrychiolaeth** – mae hyn yn bwysig iawn, ond heb fwy o gysondeb yn y prosesau penodi rydym yn pryderu y bydd yn anodd ei gyflawni. Mae dulliau fel rhaglenni mentora ac allgymorth yn hollbwysig i sicrhau bod safbwyntiau cymunedau amrywiol yn cael eu hadlewyrchu ym mholisiau a phenderfyniadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Gellid archwilio'r syniad o ddatblygu fforymau cynrychiolaeth amrywiol (gweler Adran 1.54 lle mae hyn wedi cael ei wneud ar gyfer pobl ifanc) i gynyddu'r ymwneud ag adrannau amrywiol o'r gymuned. Mae gan hyn botensial i hybu rhagor o gyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus, gan gynnwys fel aelodau neu swyddogion Awdurdodau Parciau Cenedlaethol;
- **Canllawiau ar rolau a chyfrifoldebau aelodau** – mae'r canllawiau cenedlaethol ar benodi aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn hen a dylid eu diwygio a'u hymestyn. Mae gan Lywodraeth Cymru brotocol ar benodi aelodau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a deallwn ei fod i gael ei ddiweddarau. Byddai hyn yn caniatáu i'r canllawiau gael eu diwygio.

Cwestiwn 4

O safbwynt y trefniadau llywodraethu, pa ffactorau fyddai'n galluogi'r tirweddau dynodedig i wireddu'r weledigaeth a'r uchelgais rydych wedi'u disgrifio yng nghwestiwn 2?

4.1 Mae nifer o addasiadau posibl y gellid eu gwneud i'n trefniadau llywodraethu, yn seiliedig ar y ffactorau a nodwyd mewn ymateb i Gwestiwn 3.

4.2 Dyletswydd gryfach i roi sylw i ddibenion y Parc Cenedlaethol

4.21 Fel y nodir yn Adran A10 o'n hymateb i'r Gam 1 yr ymgynghoriad, ac yn ein hymateb i Gwestiwn 3, credwn fod angen adolygu ac ailfywiogi'r ddyletswydd os yw i gyflawni ei diben o sicrhau bod yr awdurdodau perthnasol yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol ar y cyd.

4.22 Cefnogwn argymhelliad y Panel y dylai'r ymadrodd 'rhoi sylw i' gael ei ddileu a'i ddisodli gan eiriad cryfach, a chefnogwn y ddyhead i wneud y ddyletswydd yn fwy ystyrlon.

4.23 Fodd bynnag, rydym yn parhau o'r un farn y dylai'r ddyletswydd fod yn gysylltiedig â'r Cynllun Rheoli yn hytrach na'r dibenion fel y cyfryw, fel sy'n wir yn yr Alban. Dylai statws y Cynllun Rheoli gael ei ddyrchafu, a dylid cyflwyno adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai hyn yn gyfle i gynlluniau rheoli ac unrhyw faterion cysylltiedig, gan gynnwys cyfraniad cyrff cyhoeddus, i gael eu trafod yn gyhoeddus.

4.24 I lywio hyn, dylai fod yn ofyniad cyfreithiol ar awdurdodau perthnasol i lunio adroddiad blynyddol ynghylch sut y maent wedi cefnogi'r gwaith o gyflwyno Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Gallai hyn gael ei wneud ar y cyd ag adrodd ar gyflawni dyletswydd gyfochrog yr awdurdodau perthnasol i roi sylw i ddiben (neu'r cynllun rheoli, os cafodd y ddyletswydd honno ei hadolygu hefyd) yr AHNE. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r pryder a godwyd gennym ynghylch diffyg arweinyddiaeth genedlaethol gan rai cyrff, oherwydd byddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn fwy eglur am eu rôl wrth gyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau Cyd-gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Byddai defnyddio Adroddiadau Integredig yn effeithiol yn osgoi rhoi mwy o faich ar awdurdodau perthnasol i lunio adroddiadau. Gallai'r fforwm arweinyddiaeth genedlaethol a gynigir yn Adran 3.3 graffu'n briodol ar adroddiadau o'r fath.

4.25 Rydym hefyd yn awyddus i edrych ar y manteision posibl o sefydlu Partneriaeth Parc Cenedlaethol ym mhob un o'r tri Pharc Cenedlaethol i lunio, gweithredu a monitro Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn Ardal y Llynnoedd¹³. Yno, mae'r sectorau cyhoeddus, preifat, cymunedol a gwirfoddol wedi dod at ei gilydd i lunio gweledigaeth ar gyfer y Parc ac i gydweithio ar gyflawni'r Cynllun Rheoli. Byddai partneriaeth o'r fath yn helpu cyrff eraill i fonitro ac adrodd ar eu cyfraniad at gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol.

4.26 Dylai'r canllawiau a gyhoeddwyd yn 2005 ar y ddyletswydd gael eu diweddarau a dylid cyfeirio atynt yn natganiad polisi newydd Llywodraeth Cymru ar dirweddau gwarchoddedig.

¹³ <http://www.lakedistrict.gov.uk/aboutus/partnership>

Dylai'r rhestr o awdurdodau perthnasol yn y canllawiau presennol gael ei diweddarau. Rhaid atgoffa awdurdodau perthnasol am y ddyletswydd ac am ei gofynion.

4.27 Felly, rydym yn awgrymu y gallai'r ddeddfwriaeth gael ei diwygio fel a ganlyn:

Dyletswydd cyrff a phersonau penodol i gefnogi Cynlluniau Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â thir mewn Parc Cenedlaethol, neu swyddogaethau sy'n effeithio ar dir mewn Parc Cenedlaethol, rhaid i unrhyw awdurdod perthnasol gefnogi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol fel y'i mabwysiadwyd o dan adran 66(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a llunio adroddiad blynyddol ynghylch sut y cyflawnwyd hyn.

4.3 Arweinyddiaeth genedlaethol fwy gweladwy ac ar y cyd

4.31 Mae'r Adolygiad yn gyfle i wneud Tirweddau Dynodedig yn ganolog i bolisi Cymru. Byddai arweinyddiaeth fwy gweladwy gan Gyrrff a Noddir gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru o gymorth mawr gyda'r gwaith o gyflawni ein gweledigaeth a'n huchelgais. Mae yna nifer o ffyrdd posibl o wneud hyn:

- Gweledigaeth, disgwyliadau a blaenoriaethau clir gan Lywodraeth Cymru, ar ffurf Datganiad Polisi Tirweddau Dynodedig;
- Strategaeth uchelgeisiol ar gyfer Tirweddau Dynodedig, gan gynnwys dealltwriaeth o sut y mae hyn yn effeithio ar adrannau eraill, ac o fudd iddynt;
- Buddsoddiad hirdymor diogel ac arwyddocaol (o leiaf ar gylich sy'n cyfateb i oes pob Cynulliad Cenedlaethol);
- Gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r Parciau Cenedlaethol o fewn Llywodraeth Cymru, a rôl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o ran cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol;
- Arweinyddiaeth ysbrydoledig a chyfathrebu cryf a chadarnhaol ar bob lefel, gan gynnwys gan Weinidogion y Cabinet, swyddogion pob adran berthnasol a'r cyrff a noddir gan y Cynulliad;
- Cadw rheolaethau cynllunio (cynllunio datblygu a rheoli datblygu lleol) gyda datganiad gweinidogol yn cymeradwyo pwysigrwydd swyddogaeth gynllunio'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol;
- Dathlu ein rôl fel gwarcheidwaid adnoddau naturiol;
- Rhoi'r offer i ni gyflawni (gweler Adran 1.3).

4.32 Yn Adran 3.3, rydym yn cynnig sefydlu fforwm arweinyddiaeth genedlaethol. Yr aelodau ddylai osod cylch gwaith y fforwm ac awgrymwn y gallai gynnwys y canlynol:

- Ffyrdd o rannu'r arferion gorau rhwng Tirweddau Dynodedig;

- Rhoi trosolwg i'r cyrff rheoli ar weithgareddau blaenoriaeth y cytunwyd arnynt;
- Sbarduno cydlyniant a chydweithredu cryfach rhwng cyrff rheoli, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth leol a chenedlaethol;
- Hyrwyddo Tirweddau Dynodedig o fewn rhwydweithiau llywodraeth leol a chenedlaethol a fforymau perthnasol eraill;
- Annog a hwyluso'r gwaith o hyrwyddo manteision a gwerth Tirweddau Dynodedig;
- Datblygu a gweithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru gyda Thirweddau Dynodedig Cymru.

4.33 Er bod nifer o fodolau posibl ar gyfer y fforwm, ar hyn o bryd credwn y dylai gynnwys cynrychiolydd o bob un o'r wyth Tirwedd Dynodedig yng Nghymru, yn ogystal â Chyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid allweddol megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Gynghrair ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru ddod i'r cyfarfodydd fel cynghorydd i'r Fforwm.

4.34 Mae nifer o opsiynau posibl ar gyfer cynnal a chefnogi'r fforwm ee trwy nawdd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Dylai'r fforwm gyfarfod tua phedair gwaith y flwyddyn, gyda'r posibilrwydd o benodi cadeirydd annibynnol trwy gystadleuaeth agored.

4.4 Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel modelau o adrodd integredig

4.41 Cydnabyddir yn llwyr fod yn rhaid i bob corff cyhoeddus fod yn dryloyw ac atebol ym mhob agwedd ar eu gwaith a bod adroddiadau effeithiol yn elfen bwysig o hyn. Fodd bynnag, mae'r baich adrodd ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn anghymesur o ran eu staff a'u cyllidebau ariannol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffaith bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn ddarostyngedig i'r Mesur Llywodraeth Leol, ond nid felly rai Lloegr a'r Alban. Mae hyn ynddo'i hun yn dod â llu o ofynion archwilio ac adrodd eraill.

4.42 Nodwn fod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru "Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol" yn cynnig diddymu Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewn perthynas ag Awdurdodau Lleol (Adran 6.3, tudalen 72). Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cymhwyso hyn i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan ddweud y byddant yn ymgynghori ar wahân ar y diwygiadau arfaethedig ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Rydym yn gofyn i'r Panel argymell, fel rhan o broses o greu system reoleiddio fwy priodol ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, y dylai diddymu Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 fod yn gymwys i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol hefyd.

4.43 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru hefyd wedi cyflwyno llu o ofynion adrodd ychwanegol. Nodwyd hynny gan yr holl rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae'r cysyniad o Adroddiadau Integredig wedi'i nodi fel un posibilrwydd ar gyfer ail-osod y rheolau sylfaenol ar gyfer adrodd yng Nghymru. Mae'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eu bod yn awyddus i gymryd rhan mewn rhaglen beilot i ddatblygu'r cysyniad o Adroddiadau Integredig (byddai hyn yn gofyn am ymlacio lefelau presennol y gofynion adrodd gan nad oes digon o gapasiti ar gyfer y ddau ar yr un pryd, ond gallai arwain at well canlyniad yn y dyfodol).

4.44 Trwy gyflwyno un broses adrodd unedig, yn seiliedig ar Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, byddai modd i'r Cynlluniau Gwella Busnes ac adroddiadau Cyflwr y Parc yn y dyfodol fod yn gysylltiedig â'r dibenion a chael eu mesur ar sail y dibenion. Byddai'r broses hon yn ddi-fwlch, yn dryloyw, yn glir ac yn gosteffeithiol a byddai'n darparu system symlach ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chraffu.

4.5 Swyddogaeth lawn i gynllunio'r defnydd o dir

4.51 Rydym yn gyson wedi cyflwyno tystiolaeth am bwysigrwydd y swyddogaeth hon a'r safonau uchel yr ydym yn eu cyflawni (gweler Atodiad 1 o'r ymateb hwn), ac rydym yn annog y Panel i adlewyrchu'r dystiolaeth hon ac i argymhell yn ddiawys i'r Gweinidog y dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gadw eu swyddogaeth gynllunio yn llawn.

4.6 Aelodaeth Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

4.61 Rydym o blaid cadw aelodau lleol a chenedlaethol. Yn achos aelodau cenedlaethol, rydym yn fodlon â'r broses benodi fel y mae ar hyn o bryd.

4.62 Cytunwn â gweledigaeth y Gweinidog y dylid cael mwy o amrywiaeth yn y rhai a benodir, o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd, ac rydym yn teimlo y dylai hyn gael ei integreiddio'n llawn i'r broses benodi, fel bod materion amrywiaeth yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r angen i Barciau Cenedlaethol benodi pobl brofiadol sydd â'r sgiliau iawn ac sy'n cynrychioli'r ardal leol. Gallai dull matrices o benodi fod yn ddefnyddiol wrth bwysu a mesur y gwahanol ffactorau hyn yn ystod y broses benodi.

4.63 Mae amryw ffyrdd o sicrhau bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn ystyried ac yn cynrychioli amrywiaeth barn yn eu polisiâu a'u penderfyniadau (ee drwy ddefnyddio'r dulliau a amlinellir yn Adran 1.5), a dylai'r rheini helpu i greu cronfa ehangach a mwy amrywiol o aelodau, gan helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn gydag amser.

4.64 Bydd nifer o densiynau ynghlwm ag unrhyw system i benodi neu ethol aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae cadw'r ddysgl yn wastad rhwng amrywiaeth, atebolrwydd lleol, tryloywder a sgiliau yn ddi-os yn heriol. Nodir isod rai o'r opsiynau y gallai'r Panel eu hystyried. Gallai unrhyw newidiadau gael eu treialu a'u hadolygu ar ôl cylch etholiadol cyflawn o bum mlynedd, er mwyn asesu eu heffaith a'u heffeithiolrwydd:

- Gallai'r gofyniad i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol naill ai gael ei ddileu neu fod â llai o werth mewn penodiadau awdurdodau lleol, a allai ei gwneud yn haws i sicrhau cynrychiolaeth ddaearyddol decach o aelodau ar draws y Parc. Byddai angen rhoi ystyriaeth i'r risgiau posibl yn sgil hyn, o ystyried twf y llywodraeth Gabinet;
- Gallai'r gofynion o ran cydbwysedd gwleidyddol gael eu cyfyngu i wardiau sydd naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn y Parc Cenedlaethol;
- Gallai canllawiau cliriach gael eu darparu i gynorthwyo arweinwyr awdurdodau lleol wrth ddewis ymgeiswyr, gan gynnwys cynrychioli cwrmpas daearyddol y Parc Cenedlaethol, cymhelliant a diddordeb yr ymgeiswyr a'r angen am osgoi goruchafiaeth unrhyw blaid wleidyddol unigol;

- Gallai penderfyniadau ynghylch penodiadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael eu gwneud gan ddefnyddio'r dull matrices a awgrymwyd yn Adran 4.62. Fel rhan o ddyletswydd gryfach ar awdurdodau cyhoeddus i ddangos eu cyfraniad at ddibenion y Parc Cenedlaethol, gellid gofyn i arweinwyr roi rhesymau am y penodiadau i'r Gweinidog, gan gynyddu tryloywder;
- Gallai pob aelod a benodir i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael cyfweiliad ffurfiol, gan gynnwys y rhai a enwebir gan arweinwyr awdurdodau lleol. Byddai hyn yn darparu sail gyson ar gyfer penodiadau, a gellid eu teilwra'n well i lenwi'r bylchau sgiliau ymhlith yr aelodau. Byddai hefyd yn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd;
- Gellid gwahodd cynghorwyr awdurdodau lleol i fynegi diddordeb mewn bod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol pan fyddant yn sefyll i gael eu hethol. Byddai hynny hefyd yn gwneud rôl aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn fwy amlwg ymysg cymunedau lleol. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn darparu llawlyfr i ddarpar ymgeiswyr cyn pob etholiad;
- Byddai'r cysylltiad rhwng Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chymunedau a thirweddau'r Parc Cenedlaethol yn cael ei gryfhau gan gynrychiolaeth gymunedol ar bob lefel o brosesau llywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Gellid cyflawni hyn trwy sicrhau bod cyfran o aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn dod o gynghorau tref a chymuned. Gallai cyrff ymbarél ar gyfer cynghorau tref a chymuned, fel Llais Cymru, chwarae rhan ddefnyddiol o ran hwyluso'r broses hon;
- Gallai'r tymor aelodaeth gael ei adolygu – ar hyn o bryd, y tymor hwyaf ar gyfer penodiadau gweinidogol yw deng mlynedd, ond nid oes terfyn uchaf ar yr amser y caiff aelod a benodwyd gan awdurdod lleol wasanaethu;
- Gallai archwiliad blynyddol o sgiliau holl aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael ei ddefnyddio i lywio'r prosesau penodi (neu ethol) ar gyfer aelodau newydd;
- Gallai cyfran o aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael eu hethol yn uniongyrchol o blith y boblogaeth leol (awgrymwyd hyn gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus fel ffordd bosibl o gynyddu atebolrwydd). Byddai cynllun peilot etholiadau uniongyrchol yn ddefnyddiol i weld sut y byddai'r etholiadau yn gweithio'n ymarferol ond byddai angen asesu awydd y cyhoedd am haen ychwanegol o etholiadau. Dangosodd ymgynghoriadau blaenorol bod hynny'n isel;
- Fodd bynnag, mae natur Parc Cenedlaethol yn wahanol iawn i awdurdod lleol ac mae yna nifer o anafanteision posibl i etholiadau uniongyrchol, gan gynnwys y risg bod unigolion yn sefyll etholiad ar lwyfan mater unigol, heb ddiddordeb ehangach yng ngwaith Parc Cenedlaethol. Byddai cymhlethdodau'n codi lle mae ffiniau'r Parc yn croesi wardiau etholiadol presennol;
- Rydym yn pryderu y gallai fod yn ofynnol i ni ariannu'r gost o gynnal etholiadau uniongyrchol o'n cyllidebau eu hunain. Byddai angen cofrestr etholiadol bwrpasol ar gyfer etholiadau uniongyrchol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, a byddai angen arian cychwynnol sylweddol, yn ogystal â chyllid parhaus i gynnal a diweddarau'r gofrestr a hysbysebu a chynnal yr etholiadau. Byddai tynnu unrhyw arian o gyllidebau Awdurdodau Parciau

Cenedlaethol i ariannu'r etholiadau uniongyrchol yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein dibenion a'r ddyletswydd gysylltiedig.

4.7 Ariannu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

4.71 Mae Parciau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig yn cael eu cefnogi gan nifer o wahanol fodolau ariannu. Yn Lloegr, mae'r Parciau Cenedlaethol yn cael 100% o'u cyllid cenedlaethol yn uniongyrchol gan Defra. Arferai 25% o gyllid Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael ei ddarparu gan ardoll ar awdurdodau lleol, a ariannwyd gan y llywodraeth ganolog. Cafodd hyn ei newid er mwyn adlewyrchu'n fwy cywir a thryloyw y ffordd y caiff Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eu hariannu, ac am ei fod yn symlach i'w weinyddu. Mae'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn yr Alban hefyd yn cael 100% o'u cyllid cenedlaethol yn uniongyrchol gan Lywodraeth yr Alban.

4.72 Yng Nghymru, y sefyllfa bresennol yw bod y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cael 75% o'u cyllid cenedlaethol yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, a 25% drwy ardoll Parc Cenedlaethol, sy'n 'floc gwasanaeth penodol' o fewn y fformiwla Asesiad o Wariant Safonol. Mae Llywodraeth Cymru yn digolledu awdurdodau lleol o ran yr ardoll ar gyfer Parciau Cenedlaethol.

4.73 Byddai'n symlach yn weinyddol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael 100% o'u cyllid cenedlaethol yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn gofyn i'r Panel argymhell hyn i Lywodraeth Cymru yn ei adroddiad terfynol.

4.74 Mae rhai Parciau Cenedlaethol Ewropeaidd yn cael budd o'r dreth leol ar dwristiaeth. Mae'n egwyddor hirsefydlog ym Mharciau Cenedlaethol y DU eu bod yn rhad ac am ddim i bawb ar y pwynt mynediad ac ni fyddem am weld hyn yn cael ei danseilio mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, o ystyried yr hinsawdd bresennol o ran cyllid cyhoeddus, rydym yn awyddus i archwilio ffyrdd y gallai ymwelwyr wneud mwy o gyfraniad ariannol i fentrau rheoli Parciau Cenedlaethol.

4.75 Mae yna nifer o ddulliau posibl o gyflawni hyn, gan gynnwys:

- Rhoddion gan ymwelwyr – rhoddion gwirfoddol yn cael eu gwahodd gan ymwelwyr sy'n teimlo'r awydd i roi rhywbeth yn ôl i ofalu am y lleoedd y maent yn eu hoffi. Mae busnesau twristiaeth yn casglu cyfraniadau gan eu cwsmeriaid ee mae Nurture Lakeland yn gweithredu cynllun rhoddion yn Ardal y Llynnoedd;
- Cronfeydd wedi'u neilltuo'n bwrpasol - mae rhai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi sefydlu cronfeydd prosiect penodol sy'n cael eu hyrwyddo ar gyfer rhoddion cyhoeddus ee mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Northumberland wedi sefydlu'r Good Nature Fund¹⁴, a glustnodwyd ar gyfer prosiectau cadwraeth yn y Parc Cenedlaethol;
- Sefydlu cyrff elusennol o hyd braich – gallai hyn fod yn effeithiol i godi arian ar gyfer prosiectau penodol.

¹⁴ www.northumberlandnationalpark.org.uk/about/conservation-enhancement/ecology/good-nature-fund

Cwestiwn 5

A oes modelau/dulliau ar gyfer llywodraethu tirweddau dynodedig/ ardaloedd gwarchoddedig y carech dynnu sylw'r Adolygiad atynt?

5.1 O ystyried natur arbennig y Parciau Cenedlaethol fel Tirweddau Gwarchoddedig Categori V, nid oes llawer o fodolau llywodraethu perthnasol i'r Panel eu hystyried.

5.2 Parciau Natur Rhanbarthol Ffrainc (Les Parcs Naturels Régionaux)

5.21 Cafodd y system parciau natur rhanbarthol¹⁵ ei sefydlu yn Ffrainc yn 1967 mewn ymateb i'r angen am fframwaith hyblyg ar gyfer cadwraeth a datblygu. Mae parciau natur rhanbarthol yn cael eu dosbarthu fel ardaloedd gwarchoddedig Categori V.

5.22 Mae'r parc natur rhanbarthol yn gweithredu prosiect datblygu cynaliadwy, yn seiliedig ar gadw a gwella'r dreftadaeth naturiol a diwylliannol a'r wybodaeth leol. Mae'r prosiect hwn yn cael ei reoli gan sefydliad o bobl etholedig o'r cymunedau lleol (rhanbarthau, adrannau, pentrefi ac ati), ac mae'n ymwneud â rhanddeiliaid lleol wrth wneud penderfyniadau. Mae'n cael ei redeg gan dîm technegol amlddisgyblaethol ac mae'n cael ei gyllido gan arian cyhoeddus.

5.23 Mae'r dull llywodraethu felly yn eithaf tebyg i'r system bresennol yng Nghymru, gyda chyfranogiad leol a chenedlaethol a rheolaeth gan un sefydliad amlddisgyblaethol a ariennir yn gyhoeddus.

5.24 Mae ardal parc natur rhanbarthol yn cael ei dynodi yn ôl y gyfraith (am ddeng mlynedd, sy'n adnewyddadwy) gan y Weinyddiaeth Amgylchedd. Anfantais fawr y model hwn yw ei ddeiliadaeth ansicr.

5.3 Parciau Cenedlaethol Denmarc

5.31 Mae Parciau Cenedlaethol Denmarc yn unedau annibynnol o'r llywodraeth. Mae sefydlu Parc Cenedlaethol yn seiliedig ar gefnogaeth leol eang. Mae gan bob Parc Cenedlaethol reolaeth ddatganoledig, sy'n cynnwys bwrdd, cyngor Parc Cenedlaethol ac ysgrifenyddiaeth. Mae'r bwrdd a'i gadeirydd yn cael eu penodi gan Weinidog yr Amgylchedd yn Nenmarc. Cyn belled ag y bo modd, dylai pob aelod o'r bwrdd fod â chysylltiad agos ag ardal y Parc Cenedlaethol.

5.32 Ar y lefel genedlaethol, sefydlwyd grŵp cyngori cenedlaethol gydag aelodau sy'n cynrychioli gwahanol Weinidogaethau, cyrff anllywodraethol a chadeiryddion y saith pwyllgor llywio. Pwrpas y pwyllgor hwn oedd cynorthwyo wrth gynnal ymchwiliadau perthnasol a llunio un adroddiad terfynol i'w gyflwyno i Weinyddiaeth yr Amgylchedd drwy gyfuno adroddiadau'r saith prosiect peilot. Arweiniodd y broses at gynnig drafft ar gyfer Deddf y Parc Cenedlaethol.

5.33 Er bod y grŵp cyngori cenedlaethol wedi'i gynnull yn wreiddiol i roi arweiniad o ran ble i sefydlu Parciau Cenedlaethol, mae'n tynnu sylw at y rôl arweiniol bosibl y gallai grŵp o'r fath ei chwarae o ran tirweddau dynodedig yng Nghymru.

¹⁵ <http://www.parcs-naturels-regionaux.tm.fr/en/parc.UK2.pdf>

5.4 Parciau Cenedlaethol yr Alban

5.41 Mae'r ddau Barc Cenedlaethol yn yr Alban yn cael eu gweinyddu gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac yn cael eu rheoli mewn ffordd ddigon tebyg i'r rhai yn Lloegr a Chymru. Y gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol yw bod un rhan o dair o aelodau'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cael eu hethol yn uniongyrchol o blith y boblogaeth leol.

5.5 Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

5.51 Elusen yw'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2012 i ofalu am ddyfrffyrdd Cymru a Lloegr. Cyn hynny, Dyfrffyrdd Prydain, cwmni'r llywodraeth, oedd yn berchen arny'n nhw.

5.52 Mae gan yr Ymddiriedolaeth gyngor llywodraethu o dri deg pump o aelodau, sy'n amrywiaeth o unigolion a enwebwyd ac a etholwyd. Mae'r cyngor yn helpu i lunio polisi, gan godi a thrafod materion, darparu arweiniad, persbectif a fforwm trafod ar gyfer yr ymddiriedolwyr.

5.53 Ar gyfer pob un o'r 11 ardal ddyfrffordd sydd gan yr ymddiriedolaeth mae partneriaeth ranbarthol o blith cymunedau a rhanddeiliaid lleol. Hefyd, mae Bwrdd ar gyfer Glandŵr Cymru (brand Cymreig yr Ymddiriedolaeth) yn cyngori Cyngor ac Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth ar faterion sy'n ymwneud â Chymru a bydd yn gweithredu fel pont gyda Llywodraeth Cymru. Yn weithredol, mae'r ymgysylltu yn cael ei wneud drwy'r ddwy bartneriaeth ranbarthol. Mae'r trefniant hwn yn rhy gymhleth yng nghyd-destun tirweddau dynodedig Cymru gan ei fod wedi'i ffurfio mewn ymateb i ddsbarthiad daearyddol penodol y rhwydwaith camlesi yng Nghymru a'r Gororau.

5.54 Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau bod yr ymddiriedolaeth yn gweithio tuag at gyflawni'i hamcanion elusennol. Cyfarwyddwyr di-dâl ar fwrdd yr ymddiriedolaeth yw'r cyfarwyddwyr ac maen nhw'n gwneud penderfyniadau ar y cyd ar bolisi a strategaeth gyffredinol, ac yn goruchwyllo'r cyfarwyddwyr gweithredol.

5.55 Ni chredir bod y model llywodraethu hwn yn briodol ar gyfer y Parciau Cenedlaethol. Y rheswm pennaf am hyn yw bod disgwyl i'r Ymddiriedolaeth ariannu ei hun ymhen amser. Nid yw hynny'n fodel dilyn ar gyfer Parciau Cenedlaethol, yn enwedig o ystyried y gystadleuaeth sylweddol sy'n bodoli eisoes ar gyfer ennill incwm elusennol. Byddai symud i fodel o'r fath hefyd yn golygu bod angen i lawer o wasanaethau'r Parc Cenedlaethol newid yn rhai sy'n codi ffi, gyda thâl yn cael ei godi am ddefnyddio hawliau tramwy ac i gael mynediad i'r Parc Cenedlaethol. Byddai goblygiadau mawr i hyn ar gyfer y cyhoedd, a byddai'n bygwth yr egwyddor hirsefydlog bod Parciau Cenedlaethol i fod i gael eu darparu'n ddi-dâl. Byddai'r model hwn hefyd yn torri ein cysylltiadau hirsefydlog â llywodraeth leol oherwydd ni fyddai modd penodi aelodau awdurdodau lleol i fwrdd elusen.

5.6 Gwasanaeth Parciau Cenedlaethol yr Unol Daleithiau

5.61 Mae Gwasanaeth Parciau Cenedlaethol yr Unol Daleithiau yn gyfrifol am 407 o Barciau Cenedlaethol, ac mae'n rhan o'r 'Department of the Interior'. Mae'r Gwasanaeth yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr a gaiff ei gefnogi gan uwch-swyddogion gweithredol sy'n rheoli rhaglenni cenedlaethol, polisi a chyllideb, a saith cyfarwyddwr rhanbarthol sy'n gyfrifol am reoli'r Parciau Cenedlaethol a gweithredu eu rhaglenni.

5.62 Ychydig o debygrwydd uniongyrchol sydd rhwng y modd y caiff Gwasanaeth Parciau Cenedlaethol yr Unol Daleithiau ei lywodraethu a'r Tirweddau Dynodedig yng Nghymru, yn bennaf oherwydd maint y sefydliad a'r cymhlethdodau o ran graddfa.

Atodiad 1 – Cynllunio mewn Parciau Cenedlaethol

A 1 Mae ein cyfrifoldebau cynllunio wedi esblygu gydag amser, ac maen nhw'n gwella'n barhaus yn sgil asesiad annibynnol a'n harfer o werthuso defnyddwyr yn rheolaidd. O ganlyniad, rydym yn falch o fod ymysg yr awdurdodau cynllunio sy'n cyflawni orau ac sy'n ymateb orau yng Nghymru.

A 2 Canfu gwerthusiad annibynnol gan Land Use Consultants¹⁶ bod y system gynllunio yn gyffredinol yn gweithio'n dda mewn Parciau Cenedlaethol. Canfu'r gwerthusiad sawl enghraifft o arfer da o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yn ogystal â pherfformiad da o ran y dangosyddion cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio. Ar y lefel lleol, canfuwyd bod cynlluniau datblygu lleol pob Parc Cenedlaethol yn darparu cyd-destun polisi cyson ar gyfer cynllunio, yn unol â dibenion y Parc Cenedlaethol. Dylid cymharu hyn â'r anghysondebau a ganfu'r gwerthusiad mewn AHNE, oherwydd nifer yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n eu rheoli.

A 3 Yn arwyddocaol, daeth y gwerthusiad i'r casgliad canlynol:

...mantais allweddol cynllunio yn unol â ffiniau Parc Cenedlaethol yw y gall Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fabwysiadu agwedd gyson dros y cyfan o ardal y Parc Cenedlaethol yn eu Cynllun Datblygu Lleol, waeth ble mae ffiniau'r awdurdod lleol. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl rhoi ffocws clir ar ddibenion Parc Cenedlaethol ac yn sicrhau cydymffurfiant gyda Chynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol, gan greu agwedd gyson a ffocws clir ar draws pob Parc Cenedlaethol. (para. 4.6).

...cydnabyddir pwysigrwydd rhoi eu hunaniaeth eu hunain i dirweddau sydd wedi eu dynodi yn statudol, ar wahân i'r hyn a ddynodir gan yr awdurdod(au) lleol cyfansoddol, er mwyn ceisio â sicrhau cysondeb wrth gwblhau swyddogaethau cynllunio ar draws y dirwedd statudol. (para. 4.18)

A 4 Mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi gwneud cynnydd rhagorol ar gynlluniau datblygu lleol¹⁷. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i lwyddo i gael ei gynllun wedi'i fabwysiadu, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Ngogledd Cymru i fabwysiadu yn 2011, a mabwysiadwyd cynllun Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2013. Llwyddwyd i fabwysiadu yn gyflymach na llawer o'n cymheiriaid yn yr awdurdodau lleol, gan roi i gymunedau a busnesau o fewn y Parciau Cenedlaethol fframwaith polisi diweddar a sicrach i lywio eu hanghenion a'u dyheadau datblygu.

A 5 O ran rheoli datblygu, mae gwybodaeth ystadegol Llywodraeth Cymru ynghylch y modd yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio gan awdurdodau cynllunio lleol yn dangos bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cyflawni'n gyson dda ar reoli datblygu (ee yn yr ystadegau diweddaraf ar gyfer mis Hydref - Rhagfyr 2014 mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol ymhlith y saith awdurdod cynllunio sy'n cyflawni orau yng Nghymru¹⁸).

¹⁶ Cyflenwi Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau Dynodedig Statudol yng Nghymru. Adroddiad Cryno o Gam 1. Paratowyd ar ran Llywodraeth Cymru gan Land Use Consultants. Awst 2011

¹⁷ <http://gov.cymru/docs/desh/policy/141110development-plans-progress-cy.pdf>

¹⁸ <http://gov.cymru/topics/planning/planningstats/development-control-management-survey/oct-dec-2014/?lang=cy>

A 6 O ddarllen dashfwrdd y fframwaith perfformiad cynllunio¹⁹ a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori 'Cynllunio Cadarnhaol' yn 2014 gwelir bod y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cyflawni'n dda ar draws y sbectrwm cynllunio.

A 7 Ystyriodd Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol rôl cynllunio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn ei adroddiad diweddar²⁰ ar y Bil Cynllunio (Cymru). Daeth i'r casgliad nad oedd wedi cael digon o dystiolaeth i awgrymu y byddai unrhyw fudd o uno swyddogaethau cynllunio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol â rhai awdurdodau cynllunio lleol eraill. Canfu hefyd fod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cyflawni cystal ag awdurdodau cynllunio lleol eraill, a mynegwyd amheuan a oedd y penderfyniadau cynllunio a wneir gan awdurdodau cynllunio lleol mewn AHNE mor effeithiol o ran amddiffyn y tirweddau hyn â'r penderfyniadau a wneir gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

A 8 Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai uno gwasanaethau cynllunio Parciau Cenedlaethol a rhai awdurdodau lleol yn cynnig gwell gwerth am arian cyhoeddus nac y byddai dibenion y Parciau Cenedlaethol yn cael eu cyflawni'n fwy effeithiol.

¹⁹ <http://cymru.gov.uk/consultations/planning/draft-planning-wales-bill/?lang=cy>

²⁰ Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adroddiad y Pwyllgor ar y Bil Cynllunio (Cymru) Cyfnod 1, Ionawr 2015